Cardiff Students' Union
Undeb Myfyrwyr Caerdydd

# Swyddog LHDTC+ (x2)

## Y Rôl:

Etholir dau Swyddog LHDTC+ i gynrychioli buddiannau myfyrwyr LHDTC+. Mae'r rhain yn rolau gwirfoddol, a bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn cyflawni'r rôl ochr yn ochr â'u hastudiaethau. Bydd pob swyddog etholedig yn cael hyfforddiant a chefnogaeth i gyflawni eu rôl, felly nid oes angen profiad blaenorol. Mae un lle wedi'i gadw ar gyfer myfyriwr Traws, ac mae un yn lle agored.

Bydd y Swyddogion LHDTC+ yn:

- Cynrychioli pob myfyriwr LHDTC+
- Codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo buddiannau'r myfyrwyr y maent yn eu cynrychioli
- Lobio dros newidiadau ar draws y brifysgol
- Cynllunio a chynnal ymgyrchoedd
- Gwasanaethu fel cyd-lywyddion Rhwydwaith LHDTC+
- Ymgysylltu â phrosesau democrataidd Undeb y Myfyrwyr
- Mynychu cyfarfodydd Undeb y Myfyrwyr a chysylltu'n rheolaidd â staff allweddol

| Sgiliau y byddwch yn eu datblygu: | Cyfleoedd a manteision: |
|---|---|
| • Arweinyddiaeth<br>• Cyfathrebu<br>• Sgiliau trefnu<br>• Sgiliau rhyngbersonol a gwrando gweithredol<br>• Lobïo<br>• Gwaith tîm<br>• Profiad o gynllunio prosiectau<br>• Cynllunio a gweithredu ymgyrchoedd | • Hyfforddiant mewnol gan yr UM<br>• Cefnogaeth a mentora gan staff Undeb y Myfyrwyr<br>• Rhywbeth gwych i'w roi ar eich CV<br>• Cwrdd â phobl newydd<br>• Dod yn fwy cysylltiedig ag Undeb y Myfyrwyr<br>• Cyfle i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i brofiad myfyrwyr |

## Cymhwysedd:

I fod yn gymwys i sefyll am y rôl hon, rhaid i chi fod yn fyfyriwr ym Mhrifysgol Caerdydd, ac yn fyfyriwr ym

Mhrifysgol Caerdydd am gyfnod y rôl (o 1af Gorffennaf 2026 i 1af Gorffennaf 2027).

Mae yna hefyd feini prawf cymhwysedd ychwanegol ar gyfer y rôl hon. I fod yn gymwys i sefyll am y rôl hon, rhaid i'r ymgeisydd fod yn fyfyriwr sy'n hunaniaethu fel aelod o'r Gymuned LHDTC+. I fod yn gymwys i sefyll am rôl arall wedi'i gadw, rhaid i'r ymgeisydd fod yn fyfyriwr sy'n hunaniaethu fel person traws. Mae'r gofyniadau ychwanegol yma yn cael eu diffinio gan yr ymgeisydd ei hun

## Disgwyliadau:

Mae'n ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus ddangos digon o ymgysylltiad â'r rôl. Gofynnir i Swyddogion Ymgyrch wirio eu negeseuon e-bost yn rheolaidd a chyfathrebu â ni a bod yn frwdfrydig tuag at y rôl. Yn ogystal, mae set o ofynion y disgwylir i Swyddogion Ymgyrch eu cwblhau drwy gydol y flwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys, ond efallai heb fod yn gyfyngedig i:

- Mynychu hyfforddiant gydag Undeb y Myfyrwyr
- Mynychu Senedd y Myfyrwyr
- Darparu diweddariadau atebolrwydd yn Senedd y Myfyrwyr
- Darparu diweddariadau atebolrwydd ychwanegol drwy gydol y flwyddyn
- Mynychu'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol
- Mynychu cyfarfodydd Pwyllgor Gweithredol y Swyddogion
- Cynnal etholiadau rhwydwaith
- Cynnal ymgyrch unigol

**Sut i enwebu:**

Enwebwch eich hun yma.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Undeb y Myfyrwyr yma.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â'r Tîm Etholiadau ar elections@cardiff.ac.uk.